



**COVID-19 – Trefniadau Interim ar gyfer Rheoli  
Adolygiadau Plant sy'n Derbynn Gofal**

**BWRDD DIOGELU CANOLBARTH  
A GORLLEWIN CYMRU**

**Ebrill 2020**

## **Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru**

### **Briff Rhanbarthol ar gyfer Gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO), wrth adolygu cynlluniau gofal statudol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya ar 13 Ebrill 2020**

Paratowyd y papur briffio hwn i gynorthwyo staff ar draws y rhanbarth wrth ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd yn ystod pandemig COVID-19. Disgwylir y bydd yr amharu'n parhau am rai misoedd ar ddarparu gwasanaethau arferol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i adolygu a monitro lles a diogelwch yr holl blant sydd yn ein gofal, a'n bod yn parhau i gyflwyno'r gwasanaeth adolygu.

Felly, o 30 Mawrth 2020 ymlaen, bydd y canlynol ar waith nes clywir yn wahanol;

- Bydd yr holl adolygiadau o Gynlluniau Gofal Cychwynnol a Chynlluniau Gofal Dilydol yn parhau yn fusnes hanfodol o hyd a byddant yn parhau i gael eu cynnal, er o bell, yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

Er ei bod yn bwysig bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau i adolygu Gofal a Chymorth; Cynlluniau Llwybr a Chynlluniau Mabwysiadu, bydd angen i'r ffordd y cynhelir yr adolygiadau addasu ar sail newidiadau a ddisgwylir i gapasiti gwasanaethau, iechyd plant a theuluoedd ac effaith hunanynysu. Yn ystod y cyfnod hwn, dylai pob ymdrech gael ei gwneud gan weithwyr proffesiynol i ymgysylltu â phlant a theuluoedd, a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Parheir i wneud pob ymdrech i gyfathrebu gyda rhieni.

Bydd y sefyllfa mewn perthynas ag adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei hadolygu'n gyson a rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau trwy Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Dylid nodi bod yr holl brotocolau uwchgyfeirio a datrys materion yn lleol yn parhau yn weithredol, a dylid parhau i'w defnyddio lle bo'n briodol ac yn angenrheidiol yn ystod y cyfnod hwn.

Mae TPG yn parhau i gynnig gwasanaeth eirioli rhanbarthol o bell a dylai plant a phobl ifanc barhau i gael eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn fel bo'r gofyn ar egwyddor a sail cynnig gweithredol.

### **Adolygiadau Cychwynnol – s76; ICO; Mabwysiadu**

Bydd adolygiadau cychwynnol yn parhau i gael eu cynnal o fewn y graddfeydd amser. Bydd pob Awdurdod Lleol yn nodi ac yn rhoi gwybod am broses ar gyfer cynnal y gynhadledd o bell (gweler yr atodiadau); bydd hyn yn amrywio yn ôl yr adnoddau sydd ar gael, a gallai gynnwys defnyddio'r e-bost, Skype, teleffon a llwyfannau eraill ar gyfer sgwrsio mewn grŵp.

Bydd angen adroddiadau asiantaeth ar Swyddogion Adolygu Annibynnol o hyd, 2 ddiwrnod gwaith cyn dyddiad yr adolygiad. Gellir anfon y rhain drwy'r e-bost yn yr un ffordd ag o'r blaen.

Bydd y trafodaethau cyn yr adolygiad gyda'r gweithiwr cymdeithasol yn digwydd trwy alwad ffôn/Skype.

Bydd yr ymweliad ymgynghori â'r plentyn/unigolyn ifanc yn digwydd o bell gan ddefnyddio Skype/Ffôn neu lwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill sydd ar gael.

### **Adolygiadau Dilydol:**

Bydd adolygiadau dilynol yn parhau i gael eu cynnal o fewn y graddfeydd amser. Bydd pob Awdurdod Lleol yn nodi ac yn rhoi gwybod am broses ar gyfer cynnal y gynhadledd o bell. (Gweler yr atodiadau)

Bydd angen adroddiadau asiantaeth ar adolygiadau o hyd, 2 ddiwrnod gwaith cyn dyddiad yr adolygiad, a dylid rhannu'r holl adroddiadau hyn gyda'r Swyddog Adolygu Annibynnol a'r Gweithiwr Cymdeithasol cyn dyddiad yr adolygiad; bydd angen i asiantaethau ddefnyddio dulliau o bell i wneud hyn.

Bydd y trafodaethau cyn yr adolygiad gyda'r gweithiwr cymdeithasol yn digwydd trwy alwad ffôn/Skype.

Bydd yr ymweliad ymgynghori â'r plentyn/unigolyn ifanc yn digwydd o bell gan ddefnyddio Skype/Ffôn neu lwyfannau eraill sydd ar gael.

Dylai'r holl adroddiadau a anfonir o bell gael eu gwarchod gan gyfrinair neu amgryptiad.

**Graddfeydd amser:** Gall yr adolygiad gael ei oedi mewn amgylchiadau eithriadol e.e. os yw'r plentyn ac aelodau'r teulu yn anhwylyd, ac nad ydynt yn gallu cyfranogi felly. Os oes oedi yn digwydd, mae'n rhaid i'r Swyddog Adolygu Annibynnol fod yn fodlon fod y plentyn yn cael gofal diogel. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r drafodaeth hon gael ei chofnodi ar gofnod y plentyn. Ni ddylai'r oedi hwn fod yn hwy nag 20 diwrnod gwaith. Os oes amgylchiadau yn codi a allai oedi'r adolygiad ymhellach, dylid canfod beth yw dymuniadau'r plentyn a'r teulu a'u rhannu gyda'r Swyddog Adolygu Annibynnol, a dylai'r adolygiad fynd yn ei flaen.

**Cofnodi adolygiadau:** Bydd cofnod o'r adolygiad yn cael ei wneud, a bydd y cofnodion yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd i lunio barn yr adolygiad.

## Atodiad 1 – Sir Gaerfyrddin

- Mae'r Gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) yn gweithredu gwasanaeth 'Skype for business' ar hyn o bryd, sy'n galluogi partneriaid allanol, gan gynnwys gofalwyr maeth, plant a phobl ifanc a'u rheini i gael mynediad i'r cyfarfod fel gwestai.
- Bydd y tîm cymorth busnes yn parhau i anfon gwahoddiadau drwy'r e-bost ar gyfer adolygiadau. Cynhwysir arweiniad clir yn y negeseuon e-bost hynny ar sut i gael mynediad i'r cyfarfod, ac i wneud hyn bydd angen gosod yr Ap Skype for Business ar ffôn clyfar/llechen; Gliniadur/Cyfrifiadur ymlaen llaw. Mae'r arweiniad yn egluro sut i wneud hyn.
- Mewn partneriaeth gyda'r Tîm Lleoli Teuluoedd, o ran y plant hynny nad oes ganddynt fynediad i ddyfais glyfar neu gyfrifiadur ar hyn o bryd, disgwylir y bydd gofalwyr maeth yn caniatáu i blant ddefnyddio'u dyfeisiau er mwyn sicrhau bod plant yn gallu mynychu'u cyfarfod. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i gynnal ymgynghoriadau fideo gyda'u Swyddog Adolygu Annibynnol.
- O ran rhieni nad ydynt yn mynychu cyfarfod adolygu eu plentyn, bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cysylltu'n uniongyrchol i drefnu'r ffordd fwyaf priodol i sicrhau bod eich barnau'n cael eu clywed a'u cynnwys yn y broses adolygu ar gyfer eich plentyn/plant.

## Atodiad 2- Ceredigion

- Mae'r Gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) yn gweithredu gwasanaeth Galwad Cynhadledd neu 'Skype for business' ar hyn o bryd, sy'n galluogi partneriaid allanol, gan gynnwys gofalwyr maeth, plant a phobl ifanc a'u rheini i fod ar y ffôn neu gael mynediad i'r cyfarfod fel gwestai.
- Bydd tîm cymorth busnes y Swyddog Adolygu Annibynnol yn parhau i anfon gwahoddiadau drwy'r e-bost ar gyfer adolygiadau. Cynhwysir arweiniad clir yn y negeseuon e-bost hynny ar sut i gael mynediad i'r cyfarfod, ac i wneud hyn bydd angen gosod yr Ap Skype for Business ar ffôn clyfar/llechen; Gliniadur/Cyfrifiadur ymlaen llaw. Ceir arweiniad sy'n egluro sut i wneud hyn, neu os bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal drwy alwad cynhadledd.
- Mewn partneriaeth gyda'r Tîm Lleoli Teuluoedd, o ran y plant hynny nad oes ganddynt fynediad i ddyfais glyfar neu gyfrifiadur ar hyn o bryd, disgwylir y bydd gofalwyr maeth yn caniatáu i blant ddefnyddio'u dyfeisiau er mwyn sicrhau bod plant yn gallu mynychu'u cyfarfod. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i gynnal ymgynghoriadau fideo neu ffôn gyda'u Swyddog Adolygu Annibynnol.
- O ran rhieni nad ydynt yn mynychu cyfarfod adolygu eu plentyn, bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cysylltu'n uniongyrchol i drefnu'r ffordd fwyaf priodol i sicrhau bod eich barnau'n cael eu clywed a'u cynnwys yn y broses adolygu ar gyfer eich plentyn/plant.
- Pe na bai 'skype for business' neu alwad cynhadledd yn bosibl i gyfranogwyr, yna defnyddir yr e-bost i rannu gwybodaeth a chael barnau.

### **Atodiad 3 – Sir Benfro**

- Mae'r Gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) yn gweithredu gwasanaeth 'Skype for business' ar hyn o bryd, sy'n galluogi partneriaid allanol, gan gynnwys gofalwyr maeth, plant a phobl ifanc a'u rheini i gael mynediad i'r cyfarfod fel gwestai.
- Bydd y tîm cymorth busnes yn parhau i anfon gwahoddiadau drwy'r e-bost ar gyfer adolygiadau. Cynhwysir arweiniad clir yn y negeseuon e-bost hynny ar sut i gael mynediad i'r cyfarfod, ac i wneud hyn bydd angen gosod yr Ap Skype for Business ar ffôn clyfar/llechen; Gliniadur/Cyfrifiadur ymlaen llaw. Mae'r arweiniad yn egluro sut i wneud hyn.
- Mewn partneriaeth gyda'r Tîm Lleoli Teuluoedd, o ran y plant hynny nad oes ganddynt fynediad i ddyfais glyfar neu gyfrifiadur ar hyn o bryd, disgwylir y bydd gofalwyr maeth yn caniatáu i blant ddefnyddio'u dyfeisiau er mwyn sicrhau bod plant yn gallu mynychu'u cyfarfod. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i gynnal ymgynghoriadau fideo gyda'u Swyddog Adolygu Annibynnol.
- O ran rhieni nad ydynt yn mynychu cyfarfod adolygu eu plentyn, bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cysylltu'n uniongyrchol i drefnu'r ffordd fwyaf priodol i sicrhau bod eich barnau'n cael eu clywed a'u cynnwys yn y broses adolygu ar gyfer eich plentyn/plant.

### **Atodiad 4 – Powys**

- Bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon at blant a theuluoedd drwy'r post neu e-bost mynediad diogel.
- Bydd gweithwyr proffesiynol yn derbyn gwahoddiadau yn electronig. Anfonir gwahoddiadau hefyd at gyfeiriadau e-bost generig ar gyfer asiantaethau partner.
- Bydd plant yn derbyn llyfrynnau ymgynghori electronig i'w dychwelyd a'u cwblhau drwy e-bost diogel gofalwyr maeth os yw'n briodol, neu gellir cael adborth llafar dros y ffôn.
- Bydd gweithwyr cyswllt yn parhau â chysylltiad cyn-adolygiad gyda phlant er mwyn canfod dymuniadau a theimladau'r plentyn.
- Bydd Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau â chysylltiad cyn-adolygiad gyda'r plentyn naill ai trwy gyswllt fideo neu alwad ffôn. Dylid gwneud hyn mewn man preifat lle bynnag y bo modd.
- Gall plant ymuno â'r adolygiad drwy skype ochr yn ochr â'u gofalwyr maeth, neu gall y Swyddog Adolygu Annibynnol eu deialu er mwyn eu cynnwys yn yr adolygiad.
- Cynhelir yr holl adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn rhithwir. Os oes angen, gallai hyn ddigwydd fel rhan 1 a rhan 2 os yw amgylchiadau yn gwneud hyn yn ofynnol.

- Bydd cofnodion yn cael eu hanfon at weithwyr proffesiynol drwy'r e-bost a'u postio at rieni, neu'u hanfon drwy e-bost mynediad diogel os oes angen. Anfonir copi at blant naill ai drwy gyfeiriad e-bost diogel eu gofalwyr maeth neu drwy'r post.